# POLISI IAITH GYMRAEG

# CYNGOR CYMUNED PENTIR

**CYFLWYNIAD**

Mae Cyngor Cymuned Pentir wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus o fewn dalgylch gweithredol y cyngor, y bydd yn rhoi'r un statws i'r iaith Gymraeg a rhoddir i'r iaith Saesneg. Mae'r polisi hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, tra'n adfer a meithrin diwylliant o fewn y Cyngor lle mae'r Gymraeg yn parhau i ffynnu. Bydd y cyngor yn cyflawni hyn drwy sicrhau cydymffurfiad â'r canlynol:

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mesur y Gymraeg (Cymru) yw'r ddeddfwriaeth wnaeth greu safonau'r Gymraeg. Mae'r safonau yn hybu a hwyluso'r Gymraeg, ac yn sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae rhai sefydliadau yn gorfod cydymffurfio â safonau yn y meysydd canlynol:

- Cyflenwi gwasanaethau
- Llunio polisi
- Gweithredu
- Hybu
- Cadw cofnodion

Mae'r Comisiynydd eisoes wedi gosod dyletswyddau ar Gynghorau Sir a chynghorau bwrdeistred i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r hawliau yn galluogi siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith wrth ymwneud â'r sefydliadau hynny. Mae gan y Comisiynydd hefyd bŵer i orfodi'r safonau sydd wedi'u gosod ar y sefydliadau hyn. Er nad yw Cynghorau Cymuned eto wedi eu henwi yng Nghôd Ymarfer i Reoliadau'r Safonau Gymraeg (Rhif 1) 2015, mae Cyngor Cymuned Pentir yn ymrwymo i fabwysiadu ethos y Rheoliadau hyn i hybu a datblygu ysbryd nodweddiadol diwylliant Cymreig ein Cymuned.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi'r uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'r Ddeddf yn ei wneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd. I wneud yn siŵr ein bod ni gyd yn gweithio tuag at yr un diben, mae'r Ddeddf

yn sefydlu saith nod llesiant. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir bod rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrwyd, sy'n cynnwys Cynghorau Cymuned, weithio tuag at gyflawni pob un o'r nodau, nid dim ond un neu ddau ohonynt yn unig. Y saith nod llesiant yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r nod diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu yn anelu at greu cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.

**GWEITHREDU'R POLISI**

Yng nghyd destun y deddfau uchod, bydd Cyngor Cymuned Pentir yn gweithredu fel â ganlyn.

**1.0 IAITH A DIWYLLIANT**

1.1 Sicrheir fod unrhyw un sy'n cysylltu neu'n delio â Chyngor Cymuned Pentir yn cael gwneud hynny drwy ddefnyddio y Gymraeg neu'r Saesneg.

1.2 Hyrwyddir a hwylusir defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl gan ddatblygu cynaladwyedd ieithyddol Gymreig.

1.3 Cymraeg yw iaith swyddogol Cyngor Cymuned Pentir a iaith gweinyddu mewnol y Cyngor.

**2.0 DELIO GYDA'R CYHOEDD**

2.1 Mae gan pob aelod o'r gymuned yr hawl i gysylltu â'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

2.2 Dylai pob aelod o'r Cyngor sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd fedru gwneud hynny yn y ddwy iaith h.y. drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

2.3 Gan fod y cyhoedd â'r hawl i gysylltu â'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, bydd y Cyngor, mewn ymateb, yn cysylltu yn ôl yn yr iaith â dderbyniwyd yr ohebiaeth.

## 3.0 CYSYLLTIADAU AC ARWYDDION

3.1 Pan mae'r Clerc yn cysylltu am y tro cyntaf gydag unrhyw unigolyn, fudiad neu asiantaeth, bydd yn gwneud hynny yn y Gymraeg neu yn ddwyieithog. Lle bo'r asiantaeth neu fudiad yn gorff cyhoeddus, bydd yn cysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.

3.2 Fe fydd y Cyngor yn defnyddio enwau Cymraeg yn unig ar enwau llefydd, afonydd, mynyddoedd a.y.y.b., yn ychwanegol i enwau Cymraeg ar asiantaethau, ar wahan i pan mae'r Cynghorwyr wedi caniatau defnyddio fersiwn gwahanol.

3.3 Dylai pob hysbyseb fod yn y ddwy iaith ar wahan i:

- (a) hysbyseb yn y Gymraeg yn unig mewn papurau newydd Cymraeg.
- (b) hysbysebion am swydd ble mae defnydd o'r Gymraeg yn hanfodol - dylid fod yn Gymraeg yn unig gyda nodyn yn Saesneg yn esbonio natur y swydd.

3.4 Enw gweithredol y Cyngor yw "Cyngor Cymuned Pentir" a dyna yr adnabyddir y cyngor ar y logo, ar bapur pennawd, dogfennaeth y Cyngor a hefyd ar arwyddion (ac eithrio hysbysfyrddau sydd eisoes mewn bodolaeth ac yn arddangos enw'r Cyngor yn ddwyieithog). Bydd hysbysfyrddau newydd yn arddangos enw'r Cyngor yng Nghymraeg yn unig.

3.5 Ac eithrio logo'r cyngor, fel arall bydd holl arwyddion y Cyngor yn ddwyieithog.

3.5 Wrth ymateb i geisiadau ysgrifenedig am wybodaeth (GDPR), bydd y cyngor yn darparu'r wybodaeth yn yr iaith y cedwir hi neu mewn unrhyw iaith arall y mae'n gyfreithiol ofynnol ei chael e.e. bydd dogfennau cyhoeddus ar gael yn ddwyieithog. Fodd bynnag, golyga hyn hefyd y bydd gohebiaethau uniaith Gymraeg (gweler 2.1 & 2.3 uchod) ar gael yn y Gymraeg yn unig.

## 4.0 STAFF

4.1 Bydd swyddi y cyngor gan gynnwys swyddogaethau Clerc, Swyddog Ariannol, marchnata ac unrhyw rôl y dymunir eu cynnig yn cael eu hysbysebu a'u llenwi lle mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol. Yn ddibynol ar y swydd dan sylw, bydd natur y gallu hwnnw yn ddibynol ar anghenion y swydd – h.y. lle mae'r angen i gyfathrebu yn ysgrifenedig, yna bydd y gallu i ysgrifennu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol.

4.2 O bryd yw gilydd, bydd cynghorwyr a/neu chadeiryddion yn dirprwyo ar ran y Clerc (ac unrhyw swydd arall fel bo'r galw). Yn yr achos hynny, bydd disgwyl i'r cynghorwyr hynny allu ar anghenion ieithyddol y swydd.

## 5.0 MARCHNATA

5.1 Bydd holl waith marchnata, cysylltiadau cyhoeddus gan gynnwys rheoli cynnwys y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol yn cael ei wneud yn ddwyieithog.

5.2 Bydd unrhyw waith cysylltu â chwmnïau, asiantaethau, papurau newydd ac ati yn cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg oni bai mai iaith swyddogol y mudiad hwnnw yw Saesneg e.e. papur newydd di-Gymraeg.

5.3 Pan bydd y Clerc yn dirprwyo gwaith cysylltiadau cyhoeddus a marchnata i eraill e.e. cynghorwyr, yna bydd y gallu i gyfathrebu yn ddwyieithog yn hanfodol yn unol a gofynion ieithyddol swydd ddisgrifiad y Clerc.

## 6.0 GWEINYDDU CYFARFODYDD

6.1 Cynhelir holl gyfarfodydd y cyngor a'i bwyllgorau drwy gyfrwng y Gymraeg. Darperir cyfieithydd ar y pryd fel bo'r angen.

6.2 Fe fydd pob agenda a chofnodion y Cyngor a'i bwyllgorau yn cael eu paratoi yn y Gymraeg, oni bai fod y Cyngor o'r farn bod angen fersiwn dwyieithog e.e. pan mae aelod di-Gymraeg yn bresennol.

6.3 Yn ystod cyfarfodydd o'r Cyngor llawn, mae gan aelodau o'r cyhoedd, drwy wahoddiad yn unig, yr hawl i siarad drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg.

6.4 Ymhob cyfarfod cyhoeddus, bydd gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd ar gael gan gynnwys ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor (oni bai fod y Cyngor o'r farn nad oes ei angen).

6.5 Bydd holl ddogfennau'r cyfarfodydd cyhoeddus hyn yn ddwyieithog.

## 7.0 GWASANAETH I ASIANTAETHAU

7.1 Dylid defnyddio y Gymraeg yn unig pan yn cysylltu â chyrff cyhoeddus o fewn Gymru.

7.2 Dylai unrhyw gwmni, asiantaeth neu fudiad sy'n cael cymorth ariannol gan y Cyngor gael polisi iaith tebyg i'r Cyngor Cymuned gan ganiatau hefyd fod unrhyw gysylltiad gyda'r cyhoedd sydd ganddynt yn defnyddio'r ddwy iaith.

## 8.0 HYFFORDDIANT

8.1 Bydd y cyngor yn paratoi cynllun hyfforddiant blynyddol ar gyfer aelodau – bydd y cynllun hwn yn cynnwys hyfforddiant sgiliau iaith fel eitem sefydlog.

8.2 Fe fydd y Cyngor yn cefnogi pob aelod i wella eu defnydd o'r Gymraeg drwy annog yr aelodau hynny i fynychu cyrsiau dysgu neu wella eu gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 9.0 ADOLYGU

9.1 Yn arferol, adolygir y polisi hwn pob tair blynedd. Fodd bynnag, lle adnabyddir yr angen am adolygiad ynghynt, fe wneir hynny fel bo'r galw.